Taith 1 Diwrnod

Therapi Manwerthu

Croeso i Ben-y-bont ar Ogwr | Visit Bridgend

Stop 1
Crochendy Ewenni

Mae Crochendy Ewenni ychydig i lawr y ffordd o Westy a Sba Best Western Heronston sy'n addas iawn i grwpiau. Mae'r un teulu wedi bod yn creu crochenwaith ar y safle ers mwy nag wyth cenhedlaeth.

Crochendy Ewenni yw'r crochendy lleiaf yng Nghymru. Gall ymwelwyr â'r gweithdy wylio'r potiau'n cael eu creu a phrynu nwyddau gorffenedig yn yr ystafell arddangos i fynd adref gyda nhw i gofio.

Stop 2
Porthcawl

Gan ddechrau y tu allan i'r Pafiliwn Mawr ar lan y môr, bydd cyfle am awyr iach y môr cyn archwilio tref glan môr hyfryd Porthcawl.

Mae arfordir trawiadol tref Porthcawl wedi bod yn denu twristiaid ers cenedlaethau. Bydd cyfle i fwynhau'r caffis a'r bwytai glan môr, mynd am drip ar droed o amgylch siopau, lleoliadau ac atyniadau'r dref, neu fynd ar daith feicio dywys ar hyd y promenâd.

Cyfle i ddarganfod hanes cyfoethog yr ardal gydag ymweliad ag Amgueddfa Porthcawl neu'r Pafiliwn Mawr eiconig o'r 1930au.

Stop 3
Pentref Gardd y Pîl

Mae Pentref Gardd y Pîl a'i holl siopau, canolfan garddio a bwyty'r Olive Tree yn ddelfrydol i grwpiau.

Gyda llu o siopau, ystafelloedd arddangos a chyfleusterau i'w mwynhau, ac wrth gwrs y ganolfan garddio ei hun.

Mae llawer o siopau ar gael ac wrth gwrs does dim un ymweliad yn gyflawn heb ymweliad â bwyty'r Olive Tree.

Stop 4
Canolfan Siopa McArthur Glen Pen-y-bont ar Ogwr

Gyda mwy na 90 o siopau, caffis a bwytai, Canolfan Siopa McArthur Glen yw prif Ganolfan Siopa Cymru, lle gallwch ddod o hyd i'ch hoff labelau gyda gostyngiadau o hyd at 60%, drwy gydol y flwyddyn.

© Visit Bridgend